Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS
POLICE AND CRIME COMMISSIONER

## TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD

**Diben:** Penderfyniad y Comisiynydd – Cyf. DLl 121

**Amseru:** Brys – mae angen penderfyniad er mwyn cyhoeddi'r adroddiad erbyn cyfnod y sioeau haf.

**Teitl:** Cwmni argraffu ar gyfer Adroddiad Blynyddol 2018/19 y Comisiynydd

**Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes:** Llywodraethu / Cyllid

**Crynodeb Gweithredol:**

Disgwylir i Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu gynhyrchu adroddiad blynyddol o'i weithgareddau yn erbyn blaenoriaethau ei Gynllun Heddlu a Throseddu a chyflenwad swyddogaethau statudol. Argraffwyd yr adroddiad hwn gan y gwasanaeth heddlu o'r blaen, fodd bynnag, er mwyn ei argraffu mewn pryd ar gyfer ei rannu mewn sioeau haf a digwyddiadau ymgysylltu, ceisir cymeradwyaeth i anfon adroddiad 2018/19 allan i'w argraffu.

Derbyniwyd amcanbrisiau gan dri chwmni. Roedd gan y cwmni a ddewiswyd yr amcanbris rhataf ar gyfer y gwasanaeth sydd angen, ac roedd modd iddynt gwblhau'r gwaith o fewn y ffrâm amser a roddwyd.

**Argymhelliad:**

Cytuno mai cwmni Gwasg Gomer Cyf fydd yn argraffu Adroddiad Blynyddol 2018/19 y Comisiynydd.

**Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwy'n cymeradwyo'r cais uchod.

**Llofnod:** **Dyddiad 02.07.2019**